| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Craffu Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **19 Ebrill 2012** |
| **Swyddog / Aelod Arwain:** | **Aelod Arweiniol dros Addysg** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Arweinydd Tîm Gwaith Cymdeithasol Addysg** |
| **Teitl:** | **Archwiliad Blynyddol o Ddiogelu Plant mewn Addysg (Fframwaith Sicrhau Ansawdd)** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'n rhoi gwybod y diweddaraf i'r pwyllgor craffu am y deuddeg mis diwethaf o weithgarwch diogelu mewn addysg ac mae'n rhoi gwybod am y cynllun gweithredu diogelu a gyflawnwyd mewn ymateb i adroddiad Cyngor Sir Penfro (Medi 2011).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi gwybod am y cynllun gweithredu diogelu manwl a gyflawnwyd ym mis Hydref 2011 ar draws addysg, adnoddau dynol, a gwasanaethau plant. Comisiynwyd y cynllun gweithredu i sicrhau y byddai'r gweithdrefnau diogelu cyfredol ar draws wasanaethau sirol yn gallu gwrthsefyll craffu yn ystod arolygiad a'u bod yn ddigon cadarn a thrwyadl i'w defnyddio.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn nodi'r camau a gymerwyd hyd yma, yn cadarnhau ac yn cefnogi'r camau i'w cymryd yn y dyfodol i fynd i'r afael â'r meysydd gwan a nodwyd yn yr archwiliad blynyddol o ysgolion ac i fynd i'r afael â materion diogelu ar draws wasanaethau.

## 4. Manylion yr adroddiad.

Gweithredwyd y fframwaith sicrhau ansawdd mewn ysgolion ers 2009 a bydd yn cael ei adolygu yn 2013.

Yn yr adroddiad disgrifir y gweithgareddau cysylltiedig yn y fframwaith sy'n ymdrin â rolau staff allweddol mewn ysgolion ac yn y sir ynghyd â'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu i fod â threfniadau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant o dan Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002.

### 1. Hyfforddiant

Mae'r holl ysgolion yn cael hyfforddiant staff cyfan blynyddol ar "ddiogelu" ac mae hwn bellach yn arfer safonol ledled ysgolion y sir. Mae'r holl staff wedi'u cofrestru ar gronfa ddata hyfforddiant ganolog gydag enw, teitl swydd, dyddiad hyfforddi ac ysgol. Mae ysgolion yn anfon rhestr o'r staff cyfan cyn yr

hyfforddiant a chedwir cofrestr ar y diwrnod o'r staff sydd wedi dod. Mae enwau'r staff ar y rhestr sy'n absennol yn cael eu hanfon yn ôl at y pennaeth i sicrhau bod yr aelodau hyn o staff yn cael eu hyfforddi yn ystod y flwyddyn ysgol.

Mae rhestr o ysgolion cyfredol a hyfforddwyd ers mis Medi 2011 ynghlwm wrth yr adroddiad (Atodiad 1).

Mae'r holl wasanaethau ar draws addysg wedi cael hyfforddiant bellach i bob aelod o staff. Mae staff dynodedig yn y gwasanaethau ar lefel reoli wedi'u henwi'n swyddogion Amddiffyn Plant. Mae'r aelodau hyn o staff yn rheoli unrhyw bryderon a godwyd gan staff gwasanaeth bob dydd ac yn sicrhau bod atgyfeiriadau'n cael eu gwneud ar achosion.

Y timau a hyfforddir yw:

Cyfnod Sylfaen
Gwasanaeth Synhwyraidd
Tîm 14 -19
Anghenion Cymhleth a Meddygol

Cafwyd hyfforddiant gyda gwasanaethau a nodwyd na chawsant unrhyw hyfforddiant diogelu fel arall. Y cylch gwaith oedd sicrhau bod yr holl hyfforddiant yn berthnasol i waith y gwasanaethau a'r cyswllt a gânt â phlant a theuluoedd. Dyma'r gwasanaethau a hyfforddir:

- Patrolau Croesfannau Ysgol (hyfforddir yr holl bersonél)

- Gwasanaeth Cerddoriaeth Ysgol William Mathias Conwy/Sir Ddinbych (hyfforddir yr holl staff)

- Amlygwyd hefyd Brosiectau Posibl – cysylltiedig â chyllid Cymorth drwy Gyngor Sir Ddinbych, ac arweiniodd hyn at archwiliad a wnaethpwyd o bolisïau diogelu/amddiffyn plant yr asiantaethau/gwasanaethau eu hunain. Roedd hyn er mwyn bodloni Cyngor Sir Ddinbych fod gan y prosiectau sy'n gweithio gyda phlant eu polisïau asiantaeth eu hunain ar gyfer diogelu.

  Amlygodd yr archwiliad gryn fanylder yn y polisïau gwasanaeth a oedd yn amlygu arfer da a dealltwriaeth glir o Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Roeddent yn dystiolaeth o systemau mewn perthynas â chyfeirio ac yn profi pwy yn yr asiantaethau a oedd yn ymdrin â'r maes cyfrifoldeb hwn.

  Roedd systemau un asiantaeth mewn perthynas ag atgyfeirio yn amwys, ond aethpwyd i'r afael â hyn, ac mae'r asiantaeth ei hun wedi sicrhau bellach y byddai'r mater hwn yn cael sylw brys.

## 2. Gweithgarwch Atgyfeirio

**Nifer yr atgyfeiriadau a wnaed i Wasanaethau Plant o ysgolion a gwasanaethau.**

**Atodiad 2 – Medi 2011 hyd yma**
[Mae Atodiad 2 yn cael ei eithrio rhag ei ddatgelu i'r cyhoeddus yn rhinwedd paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972]

Mae'r ddogfen yn enwi ysgolion a gwasanaethau canolog sydd wedi gwneud atgyfeiriadau yn y flwyddyn ysgol gyfredol. Mae nifer fawr o atgyfeiriadau, 85 i gyd, yn dod o ogledd y sir sy'n cael ei ddiffinio fel clwstwr ysgolion Dinbych i'r ardal arfordirol.

Dim ond 12 atgyfeiriad yn y flwyddyn ysgol hon sy'n dod o ysgolion yn ne'r sir. Nid oes unrhyw dystiolaeth o waith gyda'r ysgolion yn awgrymu bod y cyfraddau atgyfeirio isel yn rhai isel yn ne'r sir am nad oes atgyfeiriadau priodol yn cael eu gwneud am blant a theuluoedd.

Amlygwyd hyn drwy gysylltu â phenaethiaid a thrwy sesiynau gyda staff allweddol a chanddynt gyfrifoldebau diogelu. Ni chodwyd unrhyw bryderon am y mater hwn gan y Gwasanaethau Plant.

Edrychasom ar drothwyon a mathau o achosion a fyddai'n deilwng o'u hatgyfeirio efallai; nid wyf wedi darganfod dim thema anweithgarwch drwy'r sesiynau hyn i deilyngu'r gyfradd atgyfeirio isel yn y de hyd yma. Mae ysgolion yn gwybod y gallant gysylltu'n rheolaidd, a'u bod yn cysylltu'n rheolaidd, â'r swyddog diogelu am gyngor ar achosion a'r swyddogion effeithiolrwydd ysgolion yn ogystal â Gwasanaethau Plant yn uniongyrchol am gyngor.

Mae'r berthynas rhwng ysgolion a gwasanaethau plant yn gadarnhaol ar y cyfan. Bydd achosion unigol ar adegau'n achosi gwahaniaethau barn proffesiynol, ond nid oes gennyf dystiolaeth i awgrymu nad yw achosion felly wedi'u trafod yn agored a bod pob ochr yn deall y camau y gellir eu cymryd ar y pryd i amddiffyn a diogelu plant rhag niwed.

Yn yr un modd, mae'r swyddog diogelu'n cysylltu â'r ysgolion â'r cyfraddau atgyfeirio uchaf yn rhan o broses y fframwaith sicrhau ansawdd. Mae ysgolion sy'n cyflwyno atgyfeiriadau o ansawdd gwael yn cael eu nodi adeg atgyfeirio ac mae'r swyddog diogelu'n cysylltu â hwy i drafod yr atgyfeiriad a'i ailgyflwyno efallai gyda gwybodaeth ychwanegol.

Er enghraifft, gall manylion ffeithiau fel pwy, beth, pryd, ble? - fod ar goll yn yr atgyfeiriad.

Cwblhawyd archwiliad ffeil ar hap o atgyfeiriadau, 15 o achosion, ym mis Rhagfyr 2011 gan y swyddog diogelu a rhestrir y prif ganfyddiadau yn ôl blaenoriaeth digwyddiad neu bryder isod:

**Cysylltwyd â'r holl ysgolion dan sylw am y canfyddiadau hyd yma.**

1. Nid oedd holl fanylion y teulu wedi'u cynnwys.

2. Nid oedd pob rhan o'r ffurflen atgyfeirio wedi'i llenwi ond mae'n ddigon posibl y gallai hyn fod yn gywir am nad oedd yr atgyfeiriwr yn gwybod yr wybodaeth ond nid oedd wedi rhoi tystiolaeth o hyn ar y ffurflen – Ddim yn berthnasol/anhysbys.

3. Dim ffocws ar y rheswm dros atgyfeirio neu wedi ticio mwy nag un blwch ar y ffurflen yn hytrach na'r prif reswm.

4. Ymdriniwyd â'r wybodaeth annigonol am gefndir ar gyfer atgyfeirio adeg yr atgyfeirio ond fe'i cofnodwyd o hyd at ddibenion archwilio.

## 3. Cynllun Gweithredu Diogelu

Gweler y cynllun manwl yn Atodiad 3 [mae Atodiad 3 wedi'i esgusodi rhag ei ddatgelu i'r cyhoedd yn rhinwedd paragraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972]

Defnyddiwyd Adroddiad Cyngor Sir Penfro 2011 yn dempled o feysydd sy'n peri gofid a chafodd y rhain eu croeswirio â pholisïau, gweithdrefnau a systemau Sir Ddinbych.

Mae'r meysydd a amlygwyd yn y cynllun gweithredu Diogelu yn arddangos y dull trwyadl a ddefnyddiwyd gan addysg, adnoddau dynol a gwasanaethau plant i ganfod meysydd gweithredu yr oedd angen gweithredu yn eu cylch ac yn disgrifio amserlen glir i wneud y gwaith hwn a'i gwblhau.

Ymhelaethaf ar y cynllun gweithredu yn y cyfarfod craffu.

## 4. Archwiliad Diogelu Ysgolion

Bydd gofyn i bob ysgol gwblhau a chyflwyno'r archwiliad blynyddol i'r swyddog diogelu. Bydd hwn yn rhan o adroddiad a gyflwynir i'r Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant yn amlinellu'r themâu a'r canfyddiadau allweddol o'r archwiliadau o ysgolion.

Gall y canfyddiadau amlinellu materion hyfforddi cyffredinol y gellir mynd i'r afael â hwy'n fwy effeithlon drwy glystyru ysgolion a nodwyd, gan gynnig sesiynau i drafod, hyfforddi neu ddiweddaru ar faterion a amlygwyd yn eu hadroddiadau archwilio.

Gellir trafod y rhain hefyd yng nghyfarfodydd cyrff llywodraethu'r ysgolion yn flynyddol a gallant fod yn rhan o'r ffeil dystiolaeth ar gyfer unrhyw arolygiad o'r ysgol yn y dyfodol.

Amlygwyd bod yr archwiliad yn arfer da gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) a Llywodraeth Cymru (LlC) sydd wedi gofyn am gopïau i'w rhannu ag awdurdodau eraill ledled Cymru.

## 5. Arolygiad Estyn Chwefror 2012

Cyfwelodd arolygwyr Estyn â'r Swyddog Diogelu yn rhan o'r arolygiad diweddar o wasanaethau awdurdod lleol mewn addysg. Darparwyd tystiolaeth, trafodwyd y gwaith papur a gyflwynwyd, ac adolygwyd y camau a gymerwyd hyd yma. Ni chodwyd unrhyw drywydd ymholi o'r cyfarfod cyntaf hwn yn cyfiawnhau camau pellach gan y tîm arolygu.

## 6. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae diogelu plant yn flaenoriaeth allweddol i'r holl wasanaethau sirol. Mae'r angen i ymateb a gwella gwasanaethau i blant yn rhan o'r trefniadau cydweithio sy'n amlwg yn yr awdurdod lleol a'r tu allan iddo gan osod diogelu yn flaenoriaeth gyntaf barhaus.

## 7. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Erthygl 6 o Gyfansoddiad y Cyngor

**Swyddog Cyswllt:**
Arweinydd Tîm Gwaith Cymdeithasol Addysg
Ffôn: 01824 708169